**Pwyllgor Diwylliant - CC-17-01(p.1)**

**Dyddiad:** 15 Tachwedd 2001

**Amser:** 2.00pm-4.30pm

**Lleoliad:** Canolfan Casnewydd, Casnewydd

**Ymateb y WDA i Adolygiad Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru o’r Iaith Gymraeg**

Mae’r WDA yn croesawu’r cyfle i roi sylwadau ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o’r iaith Gymraeg. Gan mai’r WDA yw’r corff arweiniol ar gyfer datblygu economaidd yng Nghymru, mae ein hymateb yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng yr iaith a datblygu economaidd.

Yn hanesyddol, mae rhai wedi ystyried y Gymraeg yn rhwystr i dwf economaidd ac yn yr un modd, mae eraill wedi ystyried datblygiad a thwf economaidd yn berygl i ddyfodol yr iaith. Y gwirionedd yw y gall yr iaith Gymraeg a’i diwylliant fod yn gymorth i wella twf economaidd ac y gall twf economaidd gynorthwyo i gynnal a chynyddu defnydd yr iaith. Mae’r adolygiad yn gyfle i archwilio’r synergeddau hyn a thrwy hynny’n darparu ffordd ymlaen fydd o fudd i holl bobl Cymru (trwy gynyddu ffyniant) yn ogystal â chynorthwyo i gynnal a meithrin yr iaith.

Mae’r WDA eisoes yn gweithredu rhaglenni sy’n ceisio darparu nifer o’r mesurau amlinellir yn atodiad c. Gyda chymorth arian Amcan 1 mae’r WDA, mewn partneriaeth â Menter a Busnes, yn darparu cymorth i siaradwyr Cymraeg fentro, fel rhan o Raglen Entrepreneuriaid Heb Gynrychiolaeth Ddigonol.

Mae Cwlwm Busnes yn gyfleuster rhwydweithio rhithiol arloesol a rhagweithiol ar gyfer siaradwyr Cymraeg a gefnogir gan y WDA. Mae’n adeiladu ar rwydwaith o glybiau busnes cyfrwng Cymraeg a chronfa ddata gynhwysfawr o gwmnïau Cymraeg ddatblygwyd gan Menter a Busnes ac Antur Teifi. Dengys ymchwil annibynnol fod rhagor nag 80% o entrepreneuriaid newydd Cymraeg eu hiaith yn ceisio cefnogaeth busnesau eraill yn yr un sector a bwriad Cwlwm Busnes yw gwella’r cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg rwydweithio drwy fynd i’r afael â’r rhwystrau o gyfathrebiaeth sâl a diffyg amser.

Mae’r Ffatri Fenter, gyllidir gan y WDA a ffynonellau Ewropeaidd, yn dechneg newydd a fydd yn darparu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ifanc i gael blas uniongyrchol ar fenter am gyfnod penodol. Bydd cael profiad o entrepreneuriaeth ar sail dysgu gweithredol yn ymestyn gorwelion entrepreneuriaid Cymraeg potensial ac yn cynyddu nifer y rhai sydd fwyaf tebyg o ystyried ac ymwneud â gweithgarwch entrepreneuraidd yn y dyfodol.

Enghraifft arall o weithgarwch y WDA a gaiff effaith ar gymunedau Cymraeg yw'r gwaith parhaus ar bontio'r "bwlch digidol". I ddod i'r afael â hyn mae'r WDA, trwy Gymdeithas Wybodaeth Cymru, wedi bod yn allweddol i ddatblygiad nifer o raglenni fwriadwyd ar gyfer gwella hygyrchedd gwasanaethau a technolegau band llydan. Yn arwyddocaol, bu'r WDA â rhan allweddol ym mhrosiect Llwybr Strand 6. Ochr yn ochr â'r fenter hon, mae'r WDA trwy Gymdeithas Wybodaeth Cymru wedi comisiynu adroddiad annibynnol i edrych ar argaeledd a fforddiadwyedd gwasanaethau uwch delegyfathrebu band llydan yng Nghymru. Bwriad yr adolygiad oedd dynodi polisïau priodol i sicrhau fod Cymru'n medru manteisio ar y cyfleoedd economaidd a chymdeithasol ddaw yn sgil yr economi gwybodaeth seiliedig.

Ar nodyn mwy manwl, mae'r awgrym i ddatblygu partneriaeth rhwng yr asiantaethau sydd â'r gallu i gynnal ymchwil yn un synhwyrol (yn unol â thema Ymchwil a Datblygu atodiad c). Fodd bynnag, dylid hefyd ystyried rôl unrhyw uned Ymchwil a Datblygu arfaethedig yn y cyd-destun hwn.

I gloi, mae'r WDA yn gwbl gefnogol i'r cysylltiad rhwng y Gymraeg, diwylliant a datblygu economaidd. Mae drafft diweddaraf cynllun corfforaethol y WDA yn amlinellu'r berthynas gynhaliol sydd rhwng cwmnïau, eu cyflogeion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethau ac yn gweithredu oddi mewn iddynt. Mae llwyddiant Cymru'n ddibynnol ar gystadleurwydd pobl Cymru a'u cymunedau, a'u cyfraniad tuag at ein cydweledigaeth.

**Gareth Hall**

**Executive Director**

**Strategy Development**